

at at at (*mwnwgl*)

13.6.22



annwyl E + E —

gobeithio bo chi'n cadw'n iawn? Fi ym Marcelona ers pedwar diwrnod. Wedi llosgi fy mol a fy ysgwyddau ac un patshyn o fy nhroed dde. Mae sbel fawr ers i fi allu switsho off fel hyn. Amser meddwl, amser darllen, amser peidio meddwl na darllen hefyd. Gorwedd yn yr haul, mwncis yn chware symbals, ymennydd meddal. Gadel i bethau ddod, jyst dod, neis. Bore ma nes i weld arddangosfa am gyfnodolion print radical, gwrth-wladychol, gwrth-eurocentric ayyb. Nath e chwythu pen fi bach. (Lot?) A neud i fi feddwl am *mwnwgl*, I guess, er sai'n gwbod ym mha ffordd. A nath naws yr arddangosfa hefyd ddim tarfu gormod ar y vibes mwncis yn chware symbals. Peidiwch poeni. Falle nai sôn mwy amdano fe pan wela i chi nesa. Yng Nghaerdydd rhywbryd dros yr haf?

(Gair y dydd yw sbloetsh.)

Fi'n falch bod ni'n neud hyn.


D x

14.6.22

Helo Dylan ac Elin,

Fi wedi rhoi galwad y mynydd - galwad y mynydd mlan i foddi allan sŵn y stiwdio a sgwennu hwn; bechgyn yn paentio pethe pert. Ma Glasgow'n heulog a'r haul yn taflu meddylie neis drwy ffenestri'r ysgol gelf. Sori i glywed am y bola llosg Dylan, ond falch gweld yr ymlacio yn dy frawddege.

Bues i heddi'n sgwrio carreg leim am orie er mwyn argraffu yn null hynafol y lithograph, ond mae dal ddim yn barod. Nesi wedyn fynd i ddarlith am *professional practice and the art world* odd yn depressing - strwythuredig, busnes, beth i wneud lle a phwy i siarad gyda sut. Adege fel hyn ti'n meddwl ffyc beth yw hwn i gyd ambyti? Nawr ma dua lipa di dod mlan a fi'n yfed tê o fflasg cyn dysgu pobl sut i ynganu fy enw am y canfed tro - pretend you're a vampire and say *codi breichie a neud gwymab ffyrnig*. Gobeithio bo chi'ch dau yn iawn a ie gobeithio wir am gyfarfyddiad dros yr haf ,, er ma rhwbeth braf am garden post ffug teipiedig fel hyn.



Cariad
Esyllt

15.6.22

Haia chi. Ma' hi'n * yng Nghaerdydd, ac er i mi ddeud wrth fy hun ddoe ac echdoe mod i angen cofio * mwnwgl. Dwi wedi *. Tan rŵan.

Ar laptop 'sgwennoch chi ata i? 10.48yh

Dwi'n gwely yn 'sgwennu 'sgwennu ar fy ffôn.

Dwi methu cael hyd i jarjar fy Mac. Anghofio. Er dwi'n siŵr 'sa hi ddim rhy anodd dod o hyd iddo. Ond dos gen i ddim mynadd codi o fy * rŵan.

Yr unig beth celfaidd i mi bendroni heddiw oedd 'salaries' swyddi Celf Cymru. Ddim yn aml ma' ngwely yn codi swyddi ond ma'n dorcalonnus bod nhw byth yn gallu * gwerth y gwaith. Talu.

Dwi'm isho bod yn rhan o'r * celf erbyn hyn dwi'm yn meddwl, ond dwi ddim yn meddwl fyddai byd byth ddim.

Barcelona. Bola. Bwyd neis?

Dua Lipa yn Glasgow yn yfad pa dê?

O. N. YDW I ANGEN YCHWANEGU LLUN HEFYD?

½ O GASGLEB mwnwgl

ELIN

16.6.22

Pnawn da,

diolch am y sêr Elin, meddwl lot. Cyflog shmyflog, ***. Fi ar y pumed llawr nawr, a ma lot o ffenestri a lot o ole gwyn a lot o sŵn yr M8 oddi tano yn rhoi tost pen i fi.

Fi wedi bod yn sgrialu'r garreg eto heddi, mae dal ddim yn llyfn, a siarad gyda ffrind newydd fi o Fryste, Jarvis (nid cock oen!) am bobl cyfoethog moyn delwedd tlawd. Fi di bod yn plygu prens mewn i fwa / arch / porth / pont a neud assault course *cysyniadol* a meddwl be fflip ma artistiaid yn cal y syniad bod ei syniade nhw'n aruchel? Ma'n boeth, tynn, yma. Fel condensed milk yn sownd mewn canŵ. Pa bethe neis chi di gweld yn ddiweddar allwch chi docio fel ysbrydoliaeth?

Tan toc, ddoc hapus,



Es x

17.6.22

Dydd Gwener bois, ffantastig –

Poeth a tynn yn Marseille hefyd. Stici mewn ffordd neis. Sôn am stici, how come bo pob job yn * celf Caerdydd yn mynd ar unwaith?

Ddoe on i'n iste ar awyren yn barod i hedfan, a nes i neud nodyn i ddisgrifio i chi. Yn fy nghlustiau odd Gillian Clarke yn darllen audiobook ei fersiwn o'r Gododdin. (Oes unrhyw fars da'n servio medd yn Glasgow neu Caerdydd?) On i'n syllu ar y Sbaenwr ciwt yma'n neud y ddawns life-jackets, seatbelts & yyb, yn trio neud eye contact. Odd y boi drws nesa i fi'n trio downloadio fideo YouTube o'r enw **HERE'S WHY ONLY 2% SUCCEED AND 98% DON'T** ond sai'n credu odd data gwan yr awyren yn gadael iddo fe. (Chi'n gwbod pan ti'n teimlo'n rili benodol, profi rhyw sensation gall mond gal ei ddisgrifio fel Penodol.) Llwyddiant yn air doniol. Chi'n cofio ar ddechre'r broses o ddychmygu *mwnwgl* efo'n gilydd, wrth drïo hoelio be exactly byse fe, o ni'n cadw jyst dod nôl at *peth*? Does dim o'r pobol o gwmpas fi nawr efo unrhyw syniad beth yw *mwnwgl*, na probably bod gan "Gymru" * celf o gwbwl. Ond wedyn, oes gyda ni? (Cwestiwn non-rhethregol, i'w ateb fory neu beidio.) Gair y dydd yw *peth*.

D

X

20.06.2022

Mi nes i bendroni union yr un peth Dylan. Ma' pobol yn cael llond bol dwi'n meddwl, felly ma' 'na *shift* yn digwydd.

Dwi'n eiddigeddus o dy stiwdio di Esyllt, a'r teimlad 'na bod gen ti amser neu ryddid i arbrofi? Dwi'n teimlo'n ddiweddar allai ddim 'creu celf' tra faswn i'n gallu bod yn peintio wal neu sortio'r tŷ allan. Ac er fy mod i'n caru g'neud y tŷ dwi'n poeni mod i'n colli rhywbeth wrth i'r dyddiau fynd heibio.

Ma' rhaid i mi fod yn onasd. Dwi'n ffendio 'sgwennu *at* rhywun (sydd am *actually* darllen y geiriau) yn anodd. Dwi wedi arfer 'sgwennu fel hyn yn ddyddiol ond dim ond at fi fy hun. Rhywsut dwi'n ymwybodol o bob gair ac yn ofni eich bod chi'n gwyllo fi'n teipio hwn a wedyn dileu *in real time*. Oes cyfieithiad da ar gyfer y gair 'vulnerable'?

Ma'n golygu fy mod i'n 'sgwennu mewn ffordd newydd-ish. A falla' bod hyna'n newid da i fi.

Dwi'm yn deud dim o bwys a dwi ddim yn gorffen 'sgwennu a teimlo rhyddhad fel ydw i fel arfer.

Dwi wedi bod yn cysgu lot.

A poeni mod i ddim yn ateb eich cwestiynnau a ddim yn gofyn digon yn ôl.

Dwi hefyd yn gw'bod bod ddim otsh be dwi'n ddeud.

Ond dwi di bod yn suddo yn is ac yn is ir fatras yma ers dyddia', ma' fy ymenydd i'n sownd rhwng pedair wal y stafell wely a geiria' jysd wedi'w gludo rhywla' rhwng fy asenna' a fy llwnc.

Ond dwi hefyd yn gw'bod bod ddim ots be dwi'n ddeud?

A dwi dal yn teimlo'n ychafi yn rhannu'r uchod yn lle jysd deud rwbath ysgafn dwi ddim yn feddwl.

Yn y gobaith fyddai 'chydig fwy jolly tro nesa'

Ex

21.06.2022

Hei lwc , gobeithio bo chi'ch dau yn iawn - ma hyn yn od, ti'n iawn elin, teimlo'n super personol ac yn berfformiadol 'run pryd. Mae * neis cal stiwdio - ma'n masif - a pobl neis o gwmpas ond ma'r bogail syllu yn gallu mynd yn ormod bob dydd, a sioe radd a holl ddisgwyliade'r siew honno'n pentyrru yn ymenyddie pawb.

Gwbod be ti'n dweud am vulnerable - methu bod cweit yn y peth hynna yn y gofod yma am fod gormod o gôsts y ddwy flynedd dwetha o gwmpas. Fel crafu crachen weithie. Be bynnag, gobeithio bo gen ti fatras reli cyfforddus E, a bod y sbaenwr di achub dy fywyd D.

Di bod yn cyfieithu Gertrude Stein (Staen? sbaen) ar y pryd i Gymraeg heddi, yn herciog, ar unwaith yn boenus. Dyma bach,

Stamp coch: Os yw lilis yn lilis gwyn os ydyn nhw'n blino sŵn a pellter a hyd yn oed dwst os ydyn nhw'n ddystiog bydd mwd a arwyneb sydd ddim efo gras anhygoel os ydyn nhw'n neud hwn ac nid yw'n hanfodol nid yw'n hanfodol os ydyn nhw'n neud hwn. Ma nhw angen catalog.

Mae'n neis iawn bod yn y doc ma da chi x



23.6.22

Diwrnod ola ife? (Patio bach yn Bologna, cwmwls o'r diwedd, hen bryd.) Nes i ddechre sgwennu hwn mewn notebook neithiwr ar y ffordd nôl o Venice, trio neud y Biennale mewn diwrnod, seicopath, a cheato eto. Nes i flino gormod, a odd dim byd yn y notebook yn neud sens, neud sens. Dyma ddelwedd o ffilm newydd gan James Richards weles i ddoe mewn arddangosfa o'r enw *Penumbra*:



(Y ffordd byse fi'n disgrifio'r arddangosfa byse Drud ond ges i amser da iawn efo ffilm JR.)

Fi'n hoffi faint ni di dod rownd at sgwennu at ein gilydd am sgwennu at ein gilydd, amlygu'r methiants a'r anhawsterau, lemonêd, *mwnwgl* go iawn. Doc yw hwn a mae'n awkward, pam esgus bod e ddim. Cytuno Esyllt bod e'n neis iawn cael bod tu fewn e efo chi. A meddwl mai dim ond nawr fi'n sylweddoli bod y doc yn rywbeth sy'n mynd i barhau i fodoli yn y byd, potensiyli bydd pobol arall hyd yn oed yn darllen e, sgwn i be newn nw feddwl. I fi ma ddim di bodoli fel rhwle i sgwennu hyd yn oed, as in sgwennu sgwennu, mwy fel bod mewn stafell gyda pobol yn sefyll yn agos at ein gilydd a gadel fynd o brains ni a rhoi bits i'n gilydd. Vulnerable mewn ffordd sgêri ond hefyd sdim ots, a sdim ots. Nid yw'n hanfodol nid yw'n hanfodol.

Falle mai pwrhaps *mwnwgl* = peidio gwbod, peidio teimlo fel e, peidio, gweld be sy'n digwydd.

(Pwrhaps!)

Dylan x